

JONES, LEWIS (1837 - 1904), Patagonia, arloeswr a llenor

Enw: Lewis Jones
Dyddiad geni: 1837
Dyddiad marw: 1904
Priod: Ellen Jones (née Griffith)
Plentyn: Eluned Morgan
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arloeswr a llenor
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Teithio
Awdur: Richard Bryn Williams

Ganwyd yng Nghaernarfon. Symudodd i Gaergybi a bu'n cyd-olygu 'r Pwnsh Cymraeg yno â'i gyd- argraffydd [Evan Jones](#) (Evan Jones, Caernarfon, wedi hynny). Symudodd drachefn i Lerpwl, a daeth yn un o brif arweinwyr y Mudiad Gwladfaol.

Anfonwyd ef a'r [Capt. Love Jones-Parry](#) i archwilio Patagonia yn 1862, a dychwelodd gydag adroddiad wedi ei orliwio nes bod yn anghywir, a pherswadio'r Cymry i fentro yno. Anfonwyd ef ac [Edwyn Cynrig Roberts](#) drosodd i barato'i lle i'r fintai gyntaf. Siomwyd yr ymfudwyr, bu cweryl, ac ymhen tri mis ymadawodd yntau i Buenos Aires, lle bu gweithio am ddeunaw mis fel argraffydd.

Pan glywedd fod y Cymry yn bwriadu gadael Patagonia yn 1867, aeth i lawr atynt, a thrwy ei ddawn areithyddol arbennig, fe'u perswadiodd i aros yno. Bu'n brwyd (rhaglaw) ym Mhatagonia dros Lywodraeth Ariannin am gyfnod byr - yr unig Gymro a ddaliodd y swydd erioed. Eithr bu yng ngharchar droeon hefyd dros hawliau'r Cymry. Daeth â gwsg argraffu yno, a chychwynnodd ddu bapur newydd, sef *Ein Breiniad*, 1878, a'r *Drafod*, 1891; cyhoeddir yr olaf yno hyd heddiw. Yn ystod ei ymwelliad â Chymru yn 1885 bu'n annerch y Cymmrordorion, a chyhoeddwyd ei ddarlith. Cyhoeddwyd ei lyfr, *Y Wladfa Gymreig*, yn 1898.

Bu iddo ddwy ferch: un ohonynt oedd [Eluned Morgan](#) a'r llall yn briod â Llwyd ap Iwan, mab [Michael D. Jones](#). Bu Lewis Jones yn arweinydd dewr yn y Wladfa am 35 mlynedd, ond torrodd ei galon pan ddifethwyd y wlad gan y gorlif yn 1899. Bu farw 24 Tachwedd 1904 yn 68 oed.

Awdur

Y Parchedig [Richard Bryn Williams](#), (1902 - 1981)

Ffynonellau

R. Bryn Williams, *Cymry Patagonia* (Aberystwyth 1942), 13, 20-31, 43-6, 53, 61-4

R. Bryn Williams, *Straeon Patagonia* (Aberystwyth 1946)

R. Bryn Williams, *Rhyddiaith y Wladfa* (Dinbych 1949)

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Lewis Jones](#)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [51472954](#)

Wikidata: [Q3401048](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>



Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwn.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Williams, R. B., (1953). JONES, LEWIS (1837 - 1904), Patagonia, arloeswr a llenor. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 13 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-JONE-LEW-1836>

Copio i'r

Adferwyd

Preifatrwydd a Chwics
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodder gan
Lyndroedd Cymru
Sponsored by
Welsh Government